O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 426 (Cy. 68)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (ger Llangiwa, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012

Gwnaed	*17 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*27 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei gyflawni arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (ger Llangiwa, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 27 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o'r gefnffordd, yn Sir Fynwy, sydd wedi eu nodi yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.